| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD: | 4 HYDREF 2012 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN I ADRODDIAD ESTYN AR ANSAWDD GWASANAETHAU ADDYSG AWDURDOD LLEOL I BLANT A PHOBL IFANC |
| ADRODDIAD GAN: | CYFARWYDDWR DYSGU GYDOL OES |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Darparu trosolwg i aelodau etholedig ar y camau a gymerwyd i ymateb i adroddiad Estyn ac i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad [CGOA] ar gyfer ei dderbyn |
| GWEITHREDU: | Mae angen i aelodau'r Cyngor gael eu bodloni bod y CGOA yn ymateb yn briodol i'r argymhellion a nodir gan Estyn, yn rymus ac yn ddigon manwl. Dylai aelodau hefyd rhoi ystyriaeth os yw'r gwelliannau disgwyliedig a nodir yn ddigon heriol ac a fyddai eu cyflawni yn gosod y gwasanaeth mewn sefyllfa fanteisiol pan fydd Estyn yn monitro cynnydd ar ddiwedd tymor yr haf |

## 1. CEFNDIR I ADRODDIAD ESTYN

1.1 Cyhoeddwyd adroddiad Estyn ar Ansawdd Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol i Blant a Phobl Ifanc yn Ynys Môn diwedd Gorffennaf 2012. Mae copi o'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

1.2 Mae'r barnau cyffredinol ar *Berfformiad Cyfredol* a *Gallu i Wella* yn anfoddhaol [tudalennau 3 a 4].

Nodir bod Perfformiad Cyfredol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod safonau ar gyfer plant a phobl ifanc islaw'r hyn y gellid ei ddisgwyl ym mhob cyfnod allweddol;
- bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn annerbyniol o isel;
- bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn annigonol;

- ➢ nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud i gynllunio ar gyfer lleoedd mewn ysgolion;
- ➢ nad yw arweinyddiaeth weithredol wrth gyflwyno addysg wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd o danberfformio, ac nid yw ysgolion a swyddogion wedi cael eu dwyn i gyfrif; ac
- ➢ nid yw prosesau cynllunio busnes ac asesu risg wedi bod yn ddigon trylwyr i nodi a mynd i'r afael ag arafwch y cynnydd mewn gwasanaethau addysg ac ysgolion.

Nodir bod y Gallu i Wella yn Anfoddhaol oherwydd:

- ➢ bu tanberfformio ar lefel gwasanaeth ers cryn amser;
- ➢ mae'r camau i ysgogi gwelliant wedi bod yn rhy araf yn y gorffennol i sicrhau arolygwyr y gall gwelliant ddilyn yr arolygiad hwn heb her allanol;
- ➢ bod prosesau hunan arfarnu wedi bod yn dameidiog, a chynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed mewn arolygiadau blaenorol wedi bod yn gyfyngedig;
- ➢ nad yw arweinwyr ysgol wedi cael eu dwyn i gyfrif; a
- ➢ bod llinellau atebolrwydd ar lefel gwasanaeth yn aneglur.

1.3 Nododd Estyn yr argymhellion a ganlyn fel materion oedd angen sylw.

A1 Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr a all wneud hynny gyflawni llythrennedd swyddogaethol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
A2 Cynllunio'n fwy effeithiol gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion;
A3 Sefydlu prosesau cadarn ar gyfer cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risg i broffesiynoli cyflwyno gwasanaethau addysg yn weithredol;
A4 Cynllunio effeithlonrwydd gwell wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes;
A5 Sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb yn y gofynion ar gyfer hunan arfarnu yn weithredol ac yn strategol;
A6 Cymryd camau i leihau nifer y lleoedd dros ben; a
A7 ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion.

1.4 Yn sgil yr uchod, roedd Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn dod o dan y categori gweithgarwch dilynol o fod angen mesurau arbennig.

1.5 Disgwylir i'r awdurdod lleol lunio CGOA i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 50 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad. Mae angen cyflwyno'r CGOA i sylw Estyn erbyn Hydref 9fed.

1.6 Mae'r adroddiad yn crynhoi'r camau sydd wedi'u cymryd i lunio'r CGOA a gyflwynir i sylw'r aelodau [Atodiad 2].

## 2. CAMAU A GYMERWYD

2.1 Dygwyd ynghyd yr holl faterion oedd angen sylw yn ôl Estyn. Dosbarthwyd y rhain gan ddefnyddio'r argymhellion fel penawdau [tudalennau 5-7 o'r CGOA].

2.2 Defnyddiwyd y materion oedd angen sylw [gweler paragraff 2.1 uchod] i lunio pwyntiau gweithredu i gael sylw er mwyn sicrhau gwelliant. Cyflwynir y pwyntiau gweithredu hyn, wedi'u grwpio dan bob argymhelliad, ar dudalennau 8-11 o'r CGOA. Cynhwyswyd hefyd materion penodol sydd angen sylw yn nhyb swyddogion.

2.3 Lluniwyd nifer o welliannau disgwyliedig ar gyfer pob un o'r argymhellion - mae'r rhain wedi'u hamlygu ar ddiwedd pob argymhelliad ar dudalennau 8-11.

2.4 Lluniwyd cynllun gweithredu manwl ar gyfer pob argymhelliad [tudalennau 12-40] – mae'r cynllun gweithredu manwl yn defnyddio'r pwyntiau gweithredu a gyfeiriwyd atynt yn 2.2 uchod. Ar gyfer pob argymhelliad, mae'r cynllun gweithredu manwl yn nodi'r materion a ganlyn:

- y gweithredu i'w ddilyn i gyflawni'r deilliannau a ddymunir dros raddfa amser benodol;
- unigolyn gyda chyfrifoldeb cyffredinol am arwain ar yr argymhelliad a phersonél allweddol i fod yn atebol am bob gweithredu penodol;
- amlinelliad o'r amserlen i'w dilyn ar gyfer pob pwynt gweithredu;
- manylion am yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer pob pwynt gweithredu penodol [os yn gymwys];
- y mesurau i'w defnyddio i arfarnu llwyddiant neu fel arall pwyntiau gweithredu unigol;
- targedau gwella disgwyliedig i'w cyflawni dros gyfnod o amser ar gyfer pob argymhelliad [mae'r rhain i'w gweld yn yr adrannau sydd wedi'u hamlygu ar dudalennau 8-11].

2.5 Cynhwyswyd, ar derfyn pob adran o'r cynllun gweithredu manwl, manylion am raglen fonitro - gwybodaeth fydd ar gael i adrodd ac arfarnu cynnydd pob adran o'r cynllun gweithredu. Bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i'r Bwrdd Adfer a'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden.

2.6 Lluniwyd metrics perfformiad i gofnodi data perfformiad tair blynedd ar gyfer dangosyddion allweddol ac amlygu gwelliannau a gynlluniwyd dros gyfnod o ddwy flynedd [tudalennau 41-46]. Dysgir sylw at y ffaith fod perfformiad, ar lefel Awdurdod, wedi gwella yn 2012.

2.7 Cynhyrchwyd hefyd cynllun rheoli prosiect amlinellol yn amlygu'r gweithredu sydd i'w wneud, yr amserlen gysylltiedig, ardaloedd gorgyffwrdd posibl ac unigolion allweddol gyda chyfrifoldeb cyffredinol am arwain ar bob un [tudalen 47].

2.8 Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth CLlLC a Llywodraeth Cymru, wedi comisiynu arbenigwyr allanol [ISOS] i gynnal asesiad o gapasiti a medrusrwydd y Gyfadran i roi sylw i adroddiad ac argymhellion Estyn. Mae copi cychwynnol o adroddiad ISOS wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

2.9 Fel nodwyd yn y rhagarweiniad i'r CGOA, mae'r Cyngor yn cydweithio gyda Grŵp Hay. Fel rhan o'r bartneriaeth mae arbenigwr addysgol o fewn Grwp Hay wedi craffu ar gynnwys y CGOA ac mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfa'r Cyngor**
**Llangefni**
**Ynys Môn LL77 7TW**

**Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cyd-destun

### Cyd-destun

Mae Ynys Môn yng Ngogledd Orllewin Cymru.

Yn Ynys Môn, dywed 60.9% o bobl dros dair oed eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 24.8%.

Y gyfradd gyflogaeth yn Ynys Môn oedd 69.5% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.4%. Mae 11.1% o blant yn byw mewn cartrefi di-waith.

O'r boblogaeth weithio yn Ynys Môn, nid oes gan 11.5% unrhyw gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 13.7%.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 18.8%, sy'n is nag 19.7% yn genedlaethol. Y lefel hon o gymhwyster yw'r 11eg uchaf yng Nghymru (CYBLD 2011). Dwy yn unig o'r 44 ardal yn Ynys Môn sydd yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar 31 Mawrth 2011, roedd yr awdurdod yn gofalu am 80 o blant yn Ynys Môn. Roedd 35 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 0.6% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%.

### Cyllid

Roedd Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn 2011-12 yn £1,764 y pen, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Gosodwyd cyllideb refeniw net (sef heb gynnwys grantiau penodol) o £118.9 miliwn, 1.3% yn llai na'r flwyddyn flaenorol ac yn is na'r SSA.

Gosododd yr awdurdod gyllideb addysg net ar gyfer 2011-2012 o £48.7 miliwn, cynnydd o 1.4% o'i gymharu â 2010-2011, a chyfwerth â £5,242 y disgybl, y trydydd uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y cynnydd yng nghyllidebau datganoledig ysgolion yn llai nag 1%. Roedd cyllidebau datganoledig ysgolion cynradd gyfwerth â £3,739 y disgybl (gan gynnwys grantiau penodol), tipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef £3,821 y disgybl. Yn y sector uwchradd, roedd y gyllideb ddatganoledig yn £4,037 y disgybl o'i gymharu â chyfartaledd o £4,272 y disgybl ar draws Cymru. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru mai 66.3% o'r arian sydd ar gael ar gyfer ysgolion a ddatganolwyd, y ganran isaf ymhlith awdurdodau Cymru. Erbyn 2012-2013 yn unol â disgwyliad LlC, cynyddwyd hyn i 80.4%.

Gwariodd yr awdurdod £24.9 miliwn o arian cyfalaf ar brosiectau addysg ers 2004-2005. O ystyried maint yr awdurdod, mae'r gwariant hwn yn debyg i'r cyfartaledd ledled Cymru. Fodd bynnag, cymharol fach fu'r gwariant cyfalaf ers 2010-2011, a bach yw'r ymrwymiad a gafwyd at y dyfodol o gronfa Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth y Cynulliad.

## Arweinyddiaeth gorfforaethol

Yn Awst 2008, codwyd pryderon am berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn, yn enwedig o ran llywodraethu corfforaethol, ac effeithiolrwydd y broses ddemocrataidd leol. Arweiniodd hyn at ymyrraeth gan weinidogion a phenodwyd Bwrdd Ymyrraeth a Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro.

Ym Mawrth 2011, penodwyd pum comisiynydd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, i gymryd cyfrifoldeb am lywodraethu corfforaethol, yn cynnwys swyddogaethau'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'r Comisiynwyr wedi cael eu hawdurdodi gan Weinidogion Cymru i arfer holl swyddogaethau'r weithrediaeth. Yn y cyfamser, penodwyd Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden y cyngor yn Brif Weithredwr dros dro.

Mae gan bob un o'r Comisiynwyr gyfrifoldebau a swyddogaethau gweithredol corfforaethol ac unigol, yn cynnwys cyfrifoldeb am y portffolio Dysgu Gydol Oes.

Yn Ebrill 2011, penodwyd y Prif Weithredwr dros dro i'r swydd yn barhaol, a phenodwyd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes newydd yn Ebrill 2012.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Anfoddhaol**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn anfoddhaol oherwydd:

- bod safonau ar gyfer plant a phobl ifanc islaw'r hyn y gellid ei ddisgwyl ym mhob cyfnod allweddol;
- bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn annerbyniol o isel;
- bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn annigonol;
- nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud i gynllunio ar gyfer lleoedd mewn ysgolion;
- nad yw arweinyddiaeth weithredol wrth gyflwyno addysg wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd o danberfformio, ac nid yw ysgolion a swyddogion wedi cael eu dwyn i gyfrif; ac
- nid yw prosesau cynllunio busnes ac asesu risg wedi bod yn ddigon trylwyr i nodi a mynd i'r afael ag arafwch y cynnydd mewn gwasanaethau addysg ac ysgolion.

**Gallu i wella: Anfoddhaol**

Mae rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn anfoddhaol oherwydd:

- bu tanberfformio ar lefel gwasanaeth ers cryn amser;
- mae'r camau i ysgogi gwelliant wedi bod yn rhy araf yn y gorffennol i sicrhau arolygwyr y gall gwelliant ddilyn yr arolygiad hwn heb her allanol;
- bod prosesau hunanarfarnu wedi bod yn dameidiog, a chynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed mewn arolygiadau blaenorol wedi bod yn gyfyngedig;
- nad yw arweinwyr ysgol wedi cael eu dwyn i gyfrif; a
- bod llinellau atebolrwydd ar lefel gwasanaeth yn aneglur.

## Argymhellion

Dylai'r awdurdod lleol:

A1 godi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr a all wneud hynny gyflawni llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;

A2 cynllunio'n fwy effeithiol gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion;

A3 sefydlu prosesau cadarn ar gyfer cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risg i broffesiynoli cyflwyno gwasanaethau addysg yn weithredol;

A4 cynllunio effeithlonrwydd gwell wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes;

A5 sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb yn y gofynion ar gyfer hunanarfarnu yn weithredol ac yn strategol;

A6 cymryd camau i leihau nifer y lleoedd dros ben; a

A7 ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr awdurdod lleol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 50 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn dod o dan y categori gweithgarwch dilynol o fod angen mesurau arbennig, a bydd yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am yr argymhelliad hwn.

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio gan ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall mewn awdurdod. Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu nodi ar Galendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran ganran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad ysgolion Ynys Môn islaw'r cyfartaledd ym mhob cyfnod allweddol. Ym mhob cyfnod allweddol, mae gormod o ysgolion yn y 25% isaf o ysgolion tebyg, ac nid oes digon ohonynt yn y 25% uchaf. Mae dros hanner yr ysgolion yn y 50% isaf ar gyfer pob dangosydd. Yng nghyfnod allweddol 4, ar dri o'r pum prif ddangosydd perfformiad, mae bron i hanner yr ysgolion yn y 25% isaf.

Mae canran y disgyblion yn ysgolion Ynys Môn sy'n cyflawni lefelau uwch y Cwricwlwm Cenedlaethol islaw'r cyfartaledd hefyd o gymharu â lefelau perfformiad mewn ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 3, nid oes unrhyw ysgol yn y chwarter uchaf ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau hyn.

Am y tair blynedd diwethaf, mae Ynys Môn wedi bodloni meincnod cyfnod allweddol 3 Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn 2011, ni fodlonodd y naill na'r llall o feincnodau cyfnod allweddol 4, ac yn y ddwy flynedd flaenorol, bodlonodd un yn unig o'r ddau feincnod.

At ei gilydd, cymedrol yw'r cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

Yng nghyfnodau allweddol 1, 3 a 4, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched ar y dangosydd pwnc craidd yn llai nag ydyw ledled Cymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r bwlch yn fwy.

Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng y dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr eraill yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Yn 2011, roedd oedran darllen dros chwarter o ddisgyblion yn dechrau ym Mlwyddyn 7 yn ysgolion uwchradd Ynys Môn islaw'r lefel llythrennedd gweithredol mewn Cymraeg neu Saesneg.

Bu gostyngiad yng nghanran y dysgwyr yn gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig rhwng 2010 a 2011, ac mae ymhlith y gorau yng Nghymru erbyn hyn.

Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ym mhob cyfnod allweddol. Mae perfformiad mewn Cymraeg fel ail iaith uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3 ond islaw'r cyfartaledd ym mhob cyfnod allweddol arall.

Mae canran y bobl ifanc a enillodd gredydau neu gymwysterau yn 2011 trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynyddu o 14% i 17% ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn duedd o wella ac yn ddigonol.

**Lles: Anfoddhaol**

Mae lefelau presenoldeb yn anfoddhaol mewn ysgolion uwchradd. O gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, roedd 80% o ysgolion yn y chwarter isaf yn 2011.

Mae cyfraddau presenoldeb yn ysgolion cynradd Ynys Môn wedi bod yn gyson uwch na'r cyfartaledd, ac mae dros hanner yr ysgolion uwchlaw'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion uwchradd yn isel iawn. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond mae gwaharddiadau o chwe diwrnod neu fwy yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond nhw yw'r gwaethaf ond un yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gormod o ddiwrnodau'n cael eu colli o'r ysgol.

Bu gostyngiad sylweddol yng nghanran yr ymadawyr ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) yn 2011 a hon yw'r gyfradd isaf yng Nghymru erbyn hyn. Fodd bynnag, dim ond 80.8% o bobl ifanc sy'n aros mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 82.8%.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn ystod o weithgareddau sy'n cyfrannu at wella eu lles. Mae plant a phobl ifanc yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd meithrin agweddau iach a diogel trwy amrywiaeth o brosiectau. Dywed holiadur diweddar gan yr awdurdod fod plant a phobl ifanc yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i wella eu hiechyd a sut i fod yn ddiogel. Mae bron pob un o'r ymatebwyr yn credu eu bod yn ddiogel yn yr ysgol ac, at hynny, mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn gwybod at bwy i droi pan fydd rhywbeth yn eu poeni.

Mae lefelau cyfranogi mewn rhaglenni cenedlaethol datblygu chwaraeon yn dda iawn a nhw yw'r uchaf yng Nghymru yn erbyn pob mesur. Mae canran y bobl ifanc sy'n nodi eu bod yn cael cyfleoedd i wneud ymarfer corff mewn clybiau ar ôl yr ysgol neu yn y gymuned yn parhau i gynyddu.

Mae pobl ifanc yn elwa ar waith y gwasanaeth cwnsela, ac fe gaiff effaith gadarnhaol ar les emosiynol. Mae data cynnydd yr awdurdod yn adrodd am ostyngiad mewn gorbryder a thrawma.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Cymorth ar gyfer gwella ysgolion: Anfoddhaol**

Mae dealltwriaeth penaethiaid o'r cytundeb partneriaeth rhwng yr awdurdod a'r ysgolion yn amrywio. Ar hyn o bryd, nid yw'r cytundeb yn adlewyrchu'n ddigon clir y disgwyliad y dylai ysgolion gymryd cyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain. Yn ychwanegol, ni chaiff ei ddefnyddio i dargedu adnoddau'r awdurdod yn ddigon effeithiol ar yr ysgolion y mae angen y cymorth mwyaf arnynt.

Mae swyddogion yn dadansoddi data perfformiad yn dda ac yn cynnal rhaglen strwythuredig o adolygiadau gydag ysgolion. Maent yn adnabod eu hysgolion yn dda. Mae swyddogion yn cyflwyno adroddiadau o ansawdd da sy'n nodi manylion

clir am yr elfennau y mae angen rhoi sylw ychwanegol iddynt. Mae gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer sicrhau ansawdd adroddiadau'r tîm gwella ysgolion. Fodd bynnag, ni chaiff arweinwyr mewn ysgolion sy'n tanberfformio eu dwyn i gyfrif pan nad yw perfformiad yn gwella. Yn ychwanegol, nid yw'r awdurdod wedi dadansoddidata tueddiadau ar berfformiad bechgyn a merched nac ar batrymau presenoldeb a'u cysylltu gyda gwybodaeth am danberfformio i'w helpu i nodi a chynllunio ar gyfer ymyrraeth i wella safonau.

Mewn rhai achosion, mae'r cymorth sy'n cael ei roi gan yr awdurdod yn gwella perfformiad ysgolion sy'n tanberfformio. Fodd bynnag, nid yw'r camau bob amser yn ddigon effeithiol, ac mae'r safonau a gyflawnir yn gyffredinol gan ysgolion yn parhau i fod yn rhy isel am gyfnod rhy hir. Yn yr achosion hyn, nid yw'r awdurdod wedi mynd i wraidd y gwendidau'n ddigon cyflym, ac mae'n araf i ddefnyddio'i bwerau llawn i ymyrryd a gweithredu. Ar hyn o bryd, mae angen gwelliant sylweddol mewn un ysgol uwchradd ac mae angen gwaith dilynol gan ryw hanner o'r ysgolion cynradd sydd wedi cael eu harolygu er 2010.

Mae gan yr awdurdod wybodaeth briodol am ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgolion, ond nid yw'n rhannu'r wybodaeth gyda thîm arweinyddiaeth yr ysgol, y llywodraethwyr nac aelodau o'r awdurdod lleol. Felly, nid yw arweinwyr ysgol yn ymwybodol o farn yr awdurdod am eu perfformiad. Mae prosesau'r awdurdod ar gyfer dwyn arweinwyr ysgol i gyfrif yn wan ac nid ydynt yn sicrhau her ddigonol i arweinwyr ysgol yn y broses o wella safonau. Nid yw gwybodaeth am ysgolion sy'n tanberfformio wedi cael ei hamlygu i arweinwyr corfforaethol yn gyson. Cyflwynir data ar gyfer y sir gyfan heb nodi ble mae pryderon penodol.

Nid yw'r broses o herio ysgolion, yn benodol o ran y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch ar ddiwedd cyfnodau allweddol, yn ddigon craff. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod yn colli cyfle i wneud yn siŵr bod ysgolion yn cymryd cyfrifoldeb am y swyddogaeth graidd, sef gwella safonau ar gyfer dysgwyr.

Nid yw prosesau safoni yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn ddigon cadarn. Mae hyn wedi arwain at anghysondebau ac ansicrwydd ymhlith athrawon.

Mae'r awdurdod yn cefnogi ystod o fentrau defnyddiol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae cymorth cwricwlaidd yn addas ar y cyfan, ac yn cael ei groesawu gan ysgolion. Ceir rhai enghreifftiau lle mae safonau wedi codi, er enghraifft mewn ieithoedd tramor modern a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw safonau'n gwella'n ddigon cyflym ar y cyfan. Mae'r awdurdod yn casglu gwybodaeth am lefelau darllen disgyblion Blwyddyn 6, ond nid yw'n gwneud defnydd digonol o'r wybodaeth hon wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer gwella perfformiad disgyblion. Un canlyniad yw'r ffaith fod gormod o ddysgwyr yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd gyda lefelau darllen sy'n rhy isel.

Rhoddir cymorth i reolwyr canol, dirprwyon a phenaethiaid. Fodd bynnag, ni chaiff ei dargedu a'i fonitro yn effeithiol i effeithio ar ansawdd yr arweinyddiaeth mewn ysgolion. Mae'r awdurdod yn darparu ystod eang o gyrsiau ar gyfer llywodraethwyr. Fodd bynnag, mae dros draean o arolygiadau Estyn wedi nodi gwendidau mewn cyrff llywodraethol yn y ffordd y maent yn herio penaethiaid i sicrhau atebolrwydd am y safonau a gyflawnir.

## Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Digonol

Mae Ynys Môn yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn foddhaol. Mae ansawdd y datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn dda. Yn unol â'r flaenoriaeth genedlaethol, mae'r awdurdod wedi gostwng nifer y datganiadau o 496 yn 2004-2005 i 381 yn 2010-2011, ond mae'r gyfradd yn parhau i fod y gyfradd uchaf ond un yng Nghymru.

Mae dysgwyr ag ADY yn cael cymorth sylweddol gan gynorthwywyr a staff arbenigol, fel bod dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol ar y cyfan. Mae monitro cynnydd disgyblion unigol ar lefel ysgol wedi gwella, ond nid yw'r awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth hon bob amser i arfarnu anghenion grwpiau o ddisgyblion a chynllunio'n strategol. Nid oes ganddo arfarniad cywir o effaith gwasanaethau ADY er mwyn cadarnhau'r ffordd orau o ganolbwyntio ar gymorth ychwanegol i flaenoriaethu a datblygu gwaith ei dimau gweithredol.

Caiff ysgolion eu cynorthwyo gan staff arbenigol a phrofiadol y Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig[1]. Mae'r Tabl Darpariaeth, sy'n cael ei brofi, yn rhoi arweiniad trylwyr i ysgolion ar strategaethau addysgu a rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus a chost effeithiol. Mae'r rhain yn dechrau helpu ysgolion i wella safonau cyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae cynllun peilot DaD[2] yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y cymorth i blant ag ADY. Mae'r offeryn hwn yn sicrhau cynllunio mwy effeithiol, monitro cynnydd yn well a phennu cost darpariaeth yn well. Cesglir data ar bresenoldeb dysgwyr ag ADY yn yr ysgol, ond nid yw'r awdurdod yn defnyddio'r data yn ddigon effeithiol i fynd i'r afael â phryderon a sicrhau lefelau uchel o bresenoldeb gan ddisgyblion.

Darperir ystod eang o hyfforddiant ar gyfer athrawon a chynorthwywyr, ac fe gaiff argaeledd sesiynau 'wedi'u teilwra' yn arbennig eu croesawu gan ysgolion. Mae'r dysgu, sy'n cynnwys mynd i'r afael ag amddifadedd a gwella ymddygiad, yn cyfrannu at ddatblygu gallu staff ysgolion i ddelio ag ystod o ADY ac yn meithrin gallu ysgolion i fodloni anghenion disgyblion.

Mae perthynas dda ac adeiladol rhwng yr awdurdod lleol a rhieni disgyblion ag anghenion addysgol arbennig/ADY. Mae hyn yn cadw nifer y cyfeiriadau at Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gyson isel, gydag un achos yn unig er 2009. Mae gan rieni rôl ganolog yn y broses statudol ac maent yn fodlon â chynnwys datganiadau a'r broses. Pan fydd anghytuno, mae'r awdurdod lleol yn gweithio i gael ateb, a gwneir defnydd effeithiol o SNAP Cymru, sef y gwasanaeth partneriaeth rhieni sy'n helpu rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd.

Ynys Môn sydd â'r gwariant uchaf yng Nghymru fesul disgybl ag ADY. Defnyddir meini prawf gan y Panel Cymedroli ar gyfer dyrannu cefnogaeth i unigolion, ond mae hanes o orwario sylweddol ar ADY. Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi mynd i'r afael â'r cyfrifoldeb o reoli gwariant a'r her o gadw o fewn y gyllideb ddyranedig.

---

[1] Gwasanaeth ADY ar y cyd rhwng Môn a Gwynedd
[2] DaD (Darpariaeth a Deilliannau); rhaglen beilot i wella monitro ymyrraeth ADY

## Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Digonol

Ceir cydweithredu da rhwng yr adran addysg ac eraill i ddarparu ystod eang o weithgareddau cyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau cymdeithasol hefyd i ddarparu gweithgareddau targedig ar gyfer grwpiau penodol, yn cynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed, dysgwyr sydd wedi cael eu gwahardd, troseddwyr a phlant y gofelir amdanynt.

Rhoddwyd cynllun effeithiol ar waith i dargedu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, sicrhawyd cyllid allanol ar gyfer prosiect 'Potensial' i dargedu pobl ifanc sy'n NACH neu'n debygol o ddod yn NACH. Mae'r prosiect yn cyfrannu tuag at y nifer gynyddol o ddysgwyr sy'n parhau mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant yn y gwaith. Mae'r camau hyn wedi lleihau lefel y bobl ifanc NACH yn 2011, ac maent bellach gyda'r isaf yng Nghymru.

Er bod ystod o weithgareddau ar waith sydd wedi'u hanelu at fonitro, hyrwyddo a gwella presenoldeb, nid yw'r rhain wedi cael effaith sylweddol ar gynyddu cyfraddau presenoldeb dysgwyr eto. Mae swyddog cymorth yn gweithio gydag unigolion targedig i wella eu hymddygiad yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd. Yn ychwanegol, mae symudiadau wedi'u rheoli'n ofalus rhwng ysgolion yn cyfrannu at lai o waharddiadau parhaol.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi gwella'r ffordd y mae'n sicrhau ansawdd darparwyr unigol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gomisiynu a dadgomisiynu darpariaeth yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn gwneud digon i ddwyn partneriaid i gyfrif yn erbyn y deilliannau a gyflawnir gan ddysgwyr. Yn ychwanegol, nid oes gan y bartneriaeth drosolwg o ddeilliannau plant a phobl ifanc. Mae gwasanaethau cymorth ieuenctid Ynys Môn yn ddigonol ac yn gwella argaeledd cyfleoedd. Fodd bynnag, ychydig o bobl ifanc yn unig sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Mae gan yr awdurdod bolisi diogelu priodol, sy'n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'r awdurdod wedi cymryd camau i fonitro recriwtio staff a llywodraethwyr yn ddiogel. Yn ogystal, mae'r awdurdod yn gweithio ar bolisi diogelu corfforaethol ac ar ffurfioli trefniadau ehangach ar gyfer diogelu yn yr Adran Dysgu Gydol Oes. Mae gan yr awdurdod gynlluniau i roi system newydd ar waith i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am ddiogelu gan ysgolion.

## Mynediad a lleoedd ysgol: Anfoddhaol

At ei gilydd, mae ansawdd adeiladau ysgol a lleoliadau eraill yn dda. Mae gwybodaeth yr awdurdod am gyflwr ac addasrwydd ei adeiladau ysgol yn gyfoes ac yn gywir ac mae'r trefniadau ar gyfer rhagweld nifer y disgyblion yn effeithiol.
Ers yr arolygiad diwethaf o wasanaethau mynediad yn 2005, mae'r awdurdod wedi cau pedair o'i ysgolion cynradd lleiaf. Mae hyn wedi cael gwared ar fwy na dau gant o leoedd dros ben. Fodd bynnag, canran y lleoedd gwag yn ysgolion cynradd y sir yw'r uchaf ond un ymhlith awdurdodau Cymru. Mae nifer y lleoedd gwag yn y sector cynradd wedi cynyddu dros 500 er 2005 a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu

ymhellach gan bron i 200 o leoedd erbyn 2016. Bu cynnydd yn nifer yr ysgolion cynradd sydd â nifer sylweddol o leoedd gwag rhwng 2009 a 2011. Yng ngoleuni'r duedd gynyddol o leoedd gwag, a'r costau cysylltiedig, bu'r awdurdod yn araf i ymateb i'w ragolygon ei hun. Dywed yr awdurdod y bydd yn dechrau proses o ymgynghori anffurfiol ar ddewisiadau ar gyfer ad-drefnu ysgolion mewn pedwar dalgylch eleni.

Yn y sector uwchradd, cyfanswm nifer y lleoedd dros ben yw'r pumed uchaf ymhlith awdurdodau yng Nghymru. Mae cyfanswm y lleoedd gwag wedi cynyddu dros 500 er 2005, a rhagwelir y bydd yn cynyddu gan bron i 400 o leoedd gwag ychwanegol erbyn 2016. Mae nifer sylweddol o leoedd gwag mewn dwy o'r pum ysgol uwchradd, ac nid oes unrhyw ysgol wedi'i gordanysgrifio. Mae'r awdurdod wrthi'n cynnal trafodaethau gydag awdurdod cyfagos er mwyn datblygu cynlluniau hirdymor ar gyfer darpariaeth ôl-16. Fodd bynnag, mae cynnydd yn araf iawn, ac nid oes unrhyw gynlluniau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn y sector uwchradd.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr corfforaethol wedi mabwysiadu fframwaith polisi addas i roi cyfeiriad i waith moderneiddio a rhesymoli ysgolion yn y sir. Fodd bynnag, o ystyried y duedd o waethygu, nid yw arweinwyr corfforaethol yr awdurdod wedi cymryd camau amserol na digonol eto i leihau nifer y lleoedd dros ben.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer ymgynghori ag awdurdodau derbyn lleol ac mae trefniadau cydlynu derbyniadau yn effeithiol. Bodlonir bron pob mynegiant o ddewis gan rieni, ac mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau lleoliad addas i blant sy'n symud i'r awdurdod yn dda.

At ei gilydd, mae nifer briodol o leoliadau ar gyfer darparu addysg y blynyddoedd cynnar yn y sir. Fodd bynnag, nid yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ansawdd y ddarpariaeth mewn lleoliadau nas cynhelir wrth benderfynu ar ddigonolrwydd yn eu hardal. Mae ystod briodol o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n cyflawni anghenion llawer o bobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oes gan yr awdurdod drosolwg strategol o'r ddarpariaeth er mwyn cydlynu gwasanaethau yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r awdurdod wedi bod yn destun ymyrraeth gan Weinidogion Cymru er 2009 o ganlyniad i ansefydlogrwydd gwleidyddol blaenorol. Yn fwy diweddar, er Mawrth 2011, disodlwyd bwrdd gweithredol y cyngor gan bum comisiynydd.

Mae'r comisiynwyr wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar adeiladu swyddogaethau a phrosesau corfforaethol. Yn ddiweddar iawn, maent wedi galluogi'r cyngor i benodi uwch dîm rheoli newydd sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Dysgu Gydol Oes. Mae ad-drefnu'r rôl hon wedi dod â chapasiti ychwanegol i'r adran. Fodd bynnag, mae'r swydd wedi bod yn wag am 12 mis, ac mae hyn wedi arwain at leihau capasiti'r adran yn ystod cyfnod anodd.

Mae cryfhau prosesau craidd yr awdurdod wedi arwain at gymorth ariannol gwell ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes; mae wedi cynyddu argaeledd ym maes rheoli adnoddau dynol; ac wedi tynnu'r adran tuag at broses gorfforaethol gyffredin o gynllunio busnes. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar effeithiolrwydd ac effaith y gwasanaeth eto wrth sicrhau atebolrwydd swyddogion neu ysgolion.

Mae cyswllt priodol rhwng y nodau a'r amcanion a nodwyd yn y Cynllun Busnes Corfforaethol a Chynllun Busnes y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Yn ychwanegol, mae cynlluniau busnes y gwasanaeth ar gyfer 2011-2012 a 2012-2013 yn nodi blaenoriaethau dilys. Ond nid ydynt yn nodi cerrig milltir defnyddiol i alluogi swyddogion i olrhain cynnydd, atebolrwydd a pherfformiad yn effeithiol. Nid yw'r trefniadau i reolwyr sicrhau atebolrwydd swyddogion mewn unedau gweithredol yn ddigon trylwyr. Nid oes cynlluniau busnes lefel gwasanaeth yn eu lle bob amser. Nid yw dulliau cynllunio prosiectau a busnes wedi'u datblygu'n dda, ac nid yw asesu risg yn ddigon trylwyr mewn meysydd gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg cynnydd amserol mewn nifer o agweddau pwysig ar waith y gwasanaeth.

Mae swyddogion yn adrodd i aelodau yn flynyddol ar safonau ysgolion ar draws y sir yn gyffredinol. Caiff aelodau wybodaeth chwarterol am berfformiad y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes hefyd. Fodd bynnag, nid yw aelodau yn cael digon o wybodaeth am ystod gwaith yr adran na'i pherfformiad er mwyn ei galluogi i arwain, herio a sicrhau atebolrwydd.

Mae'r comisiynwyr wedi helpu aelodau i ddeall cyfansoddiad y cyngor, eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn llawn. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau craffu. Ar y cyfan, mae gan y pwyllgor craffu ddealltwriaeth well o'i waith ac o'r hyn y gellir ei ddwyn ger ei fron. Fodd bynnag, mae'r broses ar gyfer dod ag eitemau ger bron y pwyllgor craffu yn parhau i fod yn annelwig i rai aelodau, ac mae'n tanseilio'r broses graffu.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn cydnabod bron pob maes i'w ddatblygu a nodwyd yn ystod y broses arolygu, ac yn tynnu sylw atynt fel risgiau yng nghynllun busnes 2012-2013. Yn y misoedd diwethaf, codwyd rhai risgiau yn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oesi lefel gorfforaethol oherwydd eu heffaith bosibl. Serch hynny, mae'r awdurdod wedi bod yn araf i weithredu yn unol â'r agweddau pwysig hyn.

Er gwaethaf y dylanwad cadarnhaol ar sefydlogrwydd y cyngor, nid yw arweinwyr corfforaethol wedi deall nac ymgysylltu'n llawn â'r heriau niferus sy'n wynebu addysg yn Ynys Môn eto, fel tanberfformio mewn ysgolion, cost lleoedd dros ben a lefelau presenoldeb isel dysgwyr. Fodd bynnag, mae arweinwyr corfforaethol yn awr yn cydnabod yr angen am newid sylweddol yn y ffordd y caiff addysg ac adnoddau ar gyfer addysg eu trefnu, fel y dengys eu syniadau cynnar am newidiadau strwythurol sylweddol.

### Gwella ansawdd: Anfoddhaol

Darparodd yr awdurdod adroddiad hunanarfarnu cryno a chlir ar gyfer yr arolygiad. Ar y cyfan, mae'r awdurdod wedi nodi llawer o'r agweddau y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, ni chydnabu'n ddigon clir fod cynnydd wrth gyflawni'r argymhellion o arolygiadau blaenorol o wasanaethau addysg wedi bod yn rhy araf. Er y bu rhai

gwelliannau yn sgil arolygiadau blaenorol, nid yw'r argymhellion pwysicaf wedi cael eu bodloni'n llawn.

Nid yw'r awdurdod yn defnyddio hunanarfarnu'n gyson i gynllunio, arfarnu deilliannau neu gymryd camau priodol i herio ysgolion ac unedau eraill yn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes i wella tangyflawni. O ganlyniad, mae gwelliannau yn rhy araf. Nid yw hunanarfarnu'n gyson nac yn heriol ar draws unedau. Nid yw'r Gwasanaeth yn nodi effaith lawn y meysydd allweddol i'w gwella ac nid yw'n dwyn ei staff i gyfrif yn unol â'r blaenoriaethau hyn.

Mae gan yr awdurdod ddata o ansawdd da ar ysgolion, ond nid yw'n ei ddefnyddio'n effeithiol i ysgogi gwelliant. Mae'r awdurdod yn gwella prosesau casglu data ac mae'n gwella ansawdd y data sydd ar gael ar draws gwasanaethau cymorth ieuenctid a gwasanaethau ehangach y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Nid yw rheoli perfformiad corfforaethol wedi dylanwadu ar welliant eto. Mae'r dull a ddefnyddir yn canolbwyntio ar ddeilliannau, ond nid yw wedi treiddio i bob lefel o fewn unedau unigol o'r gwasanaeth eto. O ganlyniad, nid yw'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn defnyddio prosesau busnes i fonitro effaith ei waith neu gynllunio ar gyfer gwella yn gyson. Nid yw'r unedau'n cynnwys cynlluniau busnes gweithredol i lywio eu gwaith. Mae hyn yn golygu na all rheolwyr fonitro eu cynnydd yn erbyn targedau meintiol ac ansoddol.

Trwy Llais Ni[3], mae gan blant a phobl ifanc Ynys Môn fforwm effeithiol ar gyfer rhannu eu barnau ar ddatblygiadau yn yr awdurdod a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Mae cysylltiadau cydlynol gyda chynghorau ysgol a'r Ddraig Ffynci[4] yn sicrhau bod Llais Ni yn cynrychioli pob ysgol a gwasanaeth ieuenctid. Canlyniad eu gwaith yw eu dylanwad ar benderfyniadau strategol.

Mae nifer o gymunedau dysgu proffesiynol dynamig yn dechrau cael effaith dda ar addysgu a dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith i wella medrau meddwl a dysgu disgyblion. Mae gwirio allanol ar effaith y gwaith hwn wedi nodi deilliannau cadarnhaol iawn o ran agweddau disgyblion at ddysgu.

### Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Mae gan yr awdurdod gytundebau strategol gyda nifer o bartneriaid er mwyn cynyddu capasiti a chyflawni eu blaenoriaethau addysgol. Mae wedi datblygu perthynas gefnogol weithredol, er budd plant a phobl ifanc yr ynys, gyda nifer o asiantaethau fel Gyrfa Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Bwrdd Ieuenctid Gogledd Cymru a chwmnïau ynni. Mae amrywiaeth o brosiectau partneriaeth dylanwadol hefyd, fel y Prosiect Cynorthwyo Gofalwyr Ifanc. Mae partneriaid yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu prosesau i fesur deilliannau. Ar y cyfan, nid oes digon o gysondeb yn y ffordd y mae partneriaid yn arfarnu effaith eu gwaith ar ddysgwyr.

---

[3] Fforwm Ynys Môn ar gyfer pobl ifanc
[4] Y Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol

Mae’r awdurdod wedi gweithio’n dda gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru i sefydlu trefniant rhanbarthol ar gyfer comisiynu a monitro caffael. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn costau cludiant o’r cartref i’r ysgol. Mae wedi datblygu perthynas dda gydag awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru hefyd er mwyn cynllunio a datblygu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol. Mae’r awdurdod yn chwarae rôl rhagweithiol wrth ddatblygu proffil data cynhwysfawr ar berfformiad ysgolion ar draws y rhanbarth.

Mae’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) yn trafod materion corfforaethol perthnasol fel her hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a’r angen i ymateb i ddiffyg gweithgarwch economaidd. Mae cynlluniau manwl i gyfuno cynlluniau Gwynedd ac Ynys Môn, gyda dyddiad ar gyfer sefydlu BGLl cyfun yn Hydref 2012. Nod y cynlluniau hyn yw sicrhau bod y bwrdd cyfun yn cyflawni arbedion ariannol a chyfleoedd i rannu arbenigedd ar draws y naill awdurdod a’r llall. Cytunwyd ar flaenoriaethau cyffredin priodol, er bod mwy o her i’w goresgyn wrth ddatblygu blaenoriaethau manwl y ddau awdurdod o fewn fframwaith rhanbarthol.

Mae’r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi rhoi Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar waith, ond er y bu gwelliant, nid yw’n canolbwyntio digon ar ddeilliannau ac effaith i ddysgwyr. Mae’r awdurdod yn gweithio o fewn y Rhwydwaith Dysgu 14-19 i ddarparu profiadau addysgol cost-effeithiol. Fodd bynnag, er bod y rhwydwaith yn arfarnu’r ddarpariaeth ar y cyd, amrywiol yw ansawdd y wybodaeth am ddeilliannau a’r effaith ar safonau i ddysgwyr.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Bu rhai gwelliannau yn y modd y caiff adnoddau eu rheoli ers yr arolygiad yn 2009. Cryfhawyd systemau corfforaethol strategol ar gyfer rheoli risg a pherfformiad, ac maent wedi arwain at fwy o dryloywder o ran nodi problemau ariannol. Fodd bynnag, nid yw’r awdurdod wedi mynd i’r afael â’r aneffeithlonrwydd a nodwyd ganddo eto.

I ymateb i’r arbedion ariannol y bu’n rhaid i’r awdurdod eu gwneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, bu gostyngiad sylweddol yn y cyllid wrth gefn sy’n cael ei gadw gan ysgolion. Mae hyn yn dangos cynnydd da wrth fynd i’r afael â’r argymhellion a wnaed yn adroddiad arolygu 2009. Fodd bynnag, mae gan nifer gynyddol o ysgolion ddiffygion cyllidol erbyn hyn, ac mae gan ychydig iawn ohonynt ddiffygion difrifol sydd wedi parhau i gynyddu dros gyfnod hir. Ni chafwyd ymyrraeth ddigonol gan yr awdurdod i sicrhau bod ysgolion yn rheoli’r diffygion hyn.

Mae gwariant yr awdurdod ar ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llawer uwch na gwariant unrhyw awdurdod arall yng Nghymru ac yn parhau i dyfu’n gyflymach na’r gyllideb addysg yn gyffredinol. Mae gwariant ar ADY felly yn cynrychioli cyfran gynyddol o gyfanswm y cyllid sydd ar gael, gan gyfyngu ar allu’r awdurdod i fynd i’r afael â blaenoriaethau addysgol eraill.

O fewn y gyllideb hon, mae’r ‘gyllideb integreiddio’, sy’n ariannu tîm cynyddol o gynorthwywyr mewn ysgolion. Am sawl blwyddyn, nid yw’r gyllideb hon wedi cael ei rheoli’n ddigon da. Ni fu digon o fanylion ar gael ynghylch beth yn union y mae’r arian wedi talu amdano, ac ni fu strategaeth ddigonol i arwain ysgolion tuag at addysgu cyfran uwch o’u disgyblion heb wneud cais am gymorth ychwanegol. O

ganlyniad, mae patrwm o orwario wedi tanseilio cynllunio ariannol effeithiol yn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes.

Ar ôl gwaith dadansoddi manwl, cafodd gwariant ar gynorthwywyr mewn ysgolion cynradd ei reoli'n llwyddiannus yn 2011-2012, ond nid felly y bu yn yr ysgolion uwchradd, lle parhaodd gorwario o 19% ar gyllideb a oedd 7.4% yn is nag ydoedd yn y flwyddyn flaenorol.  Ar ôl toriad arall yn y gyllideb hon ar gyfer 2012-2013, mae rhagolygon yn awgrymu na fydd yr awdurdod yn cadw gwariant o fewn y gyllideb.

Yn bennaf oherwydd y penderfyniad i gadw'r gyllideb integreiddio dan reolaeth ganolog, canran y gyllideb addysg a ddatganolir i ysgolion yw'r isaf yng Nghymru. I ymateb i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae'r awdurdod wedi cynyddu'r ganran a ddatganolir i ysgolion ar gyfer 2012-2013 yn sylweddol.  Fodd bynnag, nid yw'r arian ychwanegol yng nghyllidebau ysgolion yn debygol o gynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer 'y rheng flaen'.  Nid oes unrhyw hyblygrwydd i ysgolion yn y ffordd y defnyddir yr arian, na mwy o gyfrifoldeb ychwaith i gyd-fynd â'r cyllid ychwanegol. Er enghraifft, am resymau cytundebol, nid oes gan ysgolion unrhyw ddewis ond trosglwyddo cyllid wedi'i ddirprwyo o'r newydd ar gyfer prydau ysgolion cynradd yn ôl i reolaeth yr awdurdod.  Yn fwy cyffredinol, mae ysgolion yn rhy barod i drosglwyddo cyllid yn ôl i reolaeth yr awdurdod heb ystyried gwerth am arian eu buddsoddiad o ddifrif.

Cyfyngedig yw'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y dyfodol er mwyn buddsoddi ymhellach i wella effeithlonrwydd y system ysgolion.  Yn 2011-2012, gwariodd yr awdurdod £5,318 y disgybl ar addysg gynradd, sef y gost uchaf yng Nghymru, tra oedd gwariant ar addysg uwchradd yn £4,967, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef £4,752 y disgybl.

O ystyried y safonau anfoddhaol a gyflawnir, yr aneffeithlonrwydd wrth ddyrannu adnoddau a'r cymorth anfoddhaol ar gyfer gwella ysgolion a mynediad, mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Betsan O'Connor | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Dirprwy Arolygydd Cofnodol |
| Iwan Roberts | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Sw Roberts | Arolygydd Tîm |
| Clive Phillips | Arolygydd Tîm |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Huw Lloyd Jones | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gareth Morgans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwyn Parry | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16**

**Dangosydd pwnc craidd** – fel uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** – cyfwerth â TGAU gradd D i G.

**Y trothwy Lefel 1** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2** – cyfwerth â TGAU gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 2** - rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.

**Y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3** – cyfwerth â Safon Uwch gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 3** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol - er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm nifer y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu gan nifer y dysgwyr.

Mae’r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi’i gapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

## Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy’n byw yn 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy’n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

# Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad

# mewn ymateb i

# adroddiad arolygiad Estyn

# Gorffennaf 2012

DRAFFT

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## Cyflwyniad

Yn ei ymateb i adroddiad Estyn, datganodd Cyngor Ynys Môn ei fwriad i adeiladu ar y mannau cyfredol o arfer da ac i weithio gyda phob cyfranddaliwr i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd er mwyn gwella gwasanaethau addysg. Derbyniodd y Comisiynwyr a'r Aelodau Etholedig, yn ddiamod, yr angen am gynllun gweithredu cadarn ac effeithiol wedi ei anelu at fynd i'r afael â holl argymhellion Estyn yn y ffrâm amser byrraf bosibl ond mewn modd cwbl gynaliadwy.

O ganlyniad, mae'r cynllun gweithredu drafft hwn, am y cyfnod Mehefin 2012 hyd Awst 2014, wedi ei ddatblygu gan yr Uwch-Dîm Arweinyddiaeth [UDA] ac Aelodau Etholedig allweddol i fynd i'r afael â'r argymhellion a diffygion eraill a amlygwyd yn yr adroddiad arolygiad. Mae'r cynllun yn gosod allan, yn glir ac yn gryno, y gweithredu y mae'r Cyngor yn arfaethu ymgymryd ag ef er mwyn

- cyfarfod â'r argymhellion a mynd i'r afael â'r holl ddiffygion a adnabuwyd yn yr adroddiad arolygiad;
- adeiladu ar y bartneriaeth rhwng y Cyngor, yr ysgolion a phartneriaid allweddol strategol eraill;
- gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- arwain at welliant cynaliadwy yn y gwasanaeth addysg yn y tymor hwy.

Fel y nodwyd uchod, mae aelodau etholedig Ynys Môn a'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth yn ymrwymedig i weithio mewn **partneriaeth** gyda Llywodraeth Cymru, dan arweiniad a her adeiladol y Comisiynwyr, i greu gweledigaeth newydd dymor hir ar yfer yr ynys a'i hysgolion.

Mae'r Ynys Môn Newydd am i bob plentyn, bob person ifanc, bob dysgwr, lle bynnag y bônt, waeth be fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni eu potensial llawn a bod yn barod i chwarae rhan weithredol fel dinasyddion cyfrifol a phencampwyr cymunedol y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, a chyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, derbyniwn fod rhaid codi safon addysg ym Môn. Yn y cyswllt hwn, un o flaenoriaethau'r Cyngor yw herio ffyrdd presennol o feddwl, annog arloesedd a datblygu isadeiledd ysgolion a fydd yn:

- codi safonau addysgu a chyflawniad;
- gwella deilliannau addysgol i blant a phobl ifanc a thorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel; ac yn
- ymatebol i'n rhaglen welliannau cymdeithasol-economaidd a chymunedol.

Mewn geiriau eraill, mae'r Ynys Môn Newydd am weld ysgolion sy'n arwain y sector a safonau sy'n arwain y sector ym mhob cymuned. Cyflawnir hyn drwy fod ag ysgolion effeithiol ac adfyfyriol yn y mannau cywir, wedi eu harwain gan Benaethiaid ysbrydoledig, gyda digon o gapasiti arweinyddol ar bob lefel. Bydd yr ysgolion addas i bwrpas 21 Ganrif hyn yn:

- cwrdd ag anghenion pob plentyn a pherson ifanc, yn cynnig cwricwlwm personol wedi ei deilwra i gwrdd â gofynion yr unigolyn;
- yn adnodd ar gyfer y gymuned gyfan, yn agor cyfleusterau at ddefnydd cymunedol, yn darparu cyfleoedd ehangach i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, gemau, hamdden, diwylliant a dysgu gydol oes ac yn cynnig mynediad haws at wasanaethau plant eraill yn yr ardal leol;

DRAFFT

- yn cael rhieni a gofalwyr i ymwneud ag addysg a datblygiad plant, a hwyluso mynediad at gymorth wedi ei deilwra i helpu rhieni a gofalwyr wneud hynny'n fwy effeithiol;
- rhoi pwyslais cryfach fyth ar weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau plant yn yr ardal leol, o fewn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol;
- cymryd cyfrifoldeb am wella deilliannau i blant a phobl ifanc mewn ysgolion eraill;
- rhoi Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) wrth graidd addysgu a dysgu;
- ymwneud yn llawn ac effeithiol â'r cydweithrediad isranbarthol a rhanbarthol ar ftaerion gwella ysgolion.

Caiff yr agenda foderneiddio hon ei hatgyfnerthu gan ddymuniad y Cyngor, yn y tymor hwy, i sefydlu mentrau cymdeithasol seiliedig ar y gymuned gyda'r nod o ddatblygu cymunedau bywiog a chynaliadwy. Mae gan ysgolion, ac arweinwyr ysgolion, ran ganolog i'w chwarae wrth wireddu'r weledigaeth hirdymor hon.

Bydd y Comisiynwyr, aelodau etholedig allweddol a'r UDA yn cydweithio'n llawn a'r Bwrdd Adfer i ddarparu adroddiadau cyfamserol a manwl i Lywodraeth Cymru ynghylch cynnydd cyffredinol y Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad [CGOA].

Bydd yr UDA yn cymryd y cyfrifoldeb corfforaethol dros sylweddoli'r gwelliannau a nodir yn y CGOA ac am fonitro'r cynnydd cyffredinol. I'r perwyl hwn byddant yn alinio'r cynllun gweithredu â'r ffrydiau gwaith presennol a nodir isod i sicrhau'r newid dyfeisgar a thrawsffurfiol sydd ei angen mewn addysg.

| |
|---|
| • Gweithio gyda'r **Hay Group®** i ddatblygu Cynllun Datblygu Trefniadaethol [CDT] cadarn wedi ei gynllunio i fod wrth wraidd gwelliannau strategol corfforaethol a sylweddol, megis rhesymoli eiddo ac yn arbennig ailfodelu isadeiledd ysgolion. Fel rhan o'r bartneriaeth hon bydd yr Hay Group yn hwyluso mynediad at syniadau rhyngwladol ar gyfer gwella ysgolion [e.e. arweinyddiaeth ysgol wedi'i anleu at ragoriaeth – arweinwyr sydd yn edrych ymalen, yn ymgysylltwyr sydd a ffocws ar ddeilliannau, yn hyfforddwyr effeithiol sydd yn datblygu cynhwysedd proffesiynol eu hathrawon ac yn hyrwyddo gwerth addysg disgybl-ganolog]. |
| • Gweithio gyda CAAMS i sefydlu systemau cadarn i reoli perfformiad agweddau penodol o'r CGOA a dwyn ynghyd y data perfformiad angenrheidiol i ddangos cynnydd a deilliannau |
| • Cydweithio gyda **swyddogion LlC** i ddefnyddio PSBA i harneisio'r posibiliadau ar gyfer TGCh er lles pob dysgwr ac ysgogi adfywio economaidd a chymunedol. Mae Ynys Môn yn ymroddedig i symud yn gyflym i sefyllfa lle gall pob disgybl ddefnyddio TGCh i ar gyflymder, amser a lleoliad o'u dewis - lle gweithio personol ar gyfer dysgu sy'n hyrwyddo dysgu ac yn gwella cymhelliad. Mae'r Cyngor hefyd yn ymroddedig i ddatblygu bothau TGCh seiliedig ar ddysgu cymunedol i hwyluso adfywio cymunedol ac economaidd a mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol. |
| • Datblygu achos busnes a phroses gaffael ar gyfer cyfrwng rhesymoli eiddo. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Local Partnerships i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu'r cysyniad o Gyfrwng Ased-Gefnogol Leol [LABV][1], neu ddull perthnasol arall, i resymoli gofynion eiddo Cyngor Ynys Môn, yn cynnwys ysgolion. |

[1] Cyfuniad o asedau llywodraeth leol gyda chyllid gan gwmni sector cyhoeddus er mwyn sicrhau cyllid corfforaethol. Mewn ymateb i'r sector gyhoeddus yn trosglwyddo'i asedau i'r bartneriaeth, mae'r sector breifat yn cynnig cyllid, arbenigedd technegol a'r cymhwysedd i gyflawni. Mae LABVs wedi bod yn llwyddiannus i gyflwyno newid.

DRAFT

Roedd y broses o ddatblygu'r cynllun gweithredu yn cynnwys y camau a ganlyn.

- Dadansoddiad o'r argymhellion, diffygion eraill a nodwyd yn yr adroddiad ac ystyriaeth o dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adborth llafar [gweler atodiad 1]. Rhannwyd hyn gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'r materion allweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw a rhoi cyfle i'r Pwyllgor herio'r meddylfryd cyfredol ynghylch y gwelliannau angenrheidiol.
- Datblygiad cynllun gweithredu amlinellol i'w herio gan aelodau'r UDA, aelodau etholedig allweddol a Chomisiynwyr Llywodraeth Cymru.
- Trafodaethau gyda swyddogion Gwasanaethau Plant, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a phartneriaid allweddol eraill.
- Trafodaethau gyda swyddogion o fewn y gwasanaeth a chydweithwyr perthnasol eraill lle gofynnwyd i unigolion gyfrannu at rannau penodol o'r CGOA.
- Ymgynghoriad manwl gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr ynghylch cynnwys y CGOA, gan ganolbwyntio ar agweddau penodol perthnasol i ysgolion i sicrhau fod dealltwriaeth a chyfrifoldeb dros weithredu argymhellion allweddol yn cael ei rannu. Cynhaliwyd sesiwn gyffelyb generig ar gyfer Llywodraethwyr.

Mae'r CGOA yn cynnwys yr adrannau a ganlyn.

| |
|---|
| *Adran 1 – Argymhellion a materion sydd angen sylw*<br>Dadansoddiad o'r argymhellion, materion eraill a nodwyd gan Estyn fel rhai oedd angen sylw ynghyd a'r wybdoaeth a rannwyd yn yr adroddiad llafar [tudalennau 5-7]. Mae'r materion sydd angen sylw a'r wybodaeth lafar a dderbyniwyd wedi'u grwpio yn ol pob argymhelliad. |
| *Adran 2 – Amlinelliad o weithredu sydd i ddigwydd*<br>Ar gyfer pob argymhelliad, amlinelliad o'r gweithredu i'w wneud i ymateb i bob diffyg, a'r gwelliannau disgwyliedig [tudalennau 8-11]; |
| *Adran 3 – Cynllun gweithredu manwl*<br>Cynllun gweithredu manwl [tudalennau 12-40]. Ar gyfer pob argymhelliad, mae'r cynllun gweithredu manwl yn nodir materion a ganlyn.<br>• Y gweithredu i'w ddilyn i gyflawni'r deilliannau a ddymunir dros raddfa amser benodol.<br>• Unigolyn gyda chyfrifoldeb cyffredinol am arwain ar yr argymhelliad a phersonél allweddol i fod yn atebol am bob gweithredu penodol.<br>• Amlinelliad o'r amserlen i'w dilyn ar gyfer pob pwynt gweithredu.<br>• Manylion am yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer pob pwynt gweithredu penodol [os yw'n gymwys];<br>• Y mesurau i'w defnyddio i arfarnu llwyddiant neu fel arall pwyntiau gweithredu unigol<br>• Targedau gwella disgwyliedig i'w cyflawni dros gyfnod o amser ar gyfer pob argymhelliad.<br>• Gwybodaeth fydd ar gael ar gyfer arfarnu ac adrodd ar gynnydd. |
| *Adran 4 – Metrics perfformiad*<br>Metrics perfformiad i gofnodi data perfformiad tair blynedd ar gyfer dangosyddion allweddol ac amlygu gwelliannau a gynlluniwyd dros gyfnod o ddwy flynedd [tudalennau 41-46]. |
| *Adran 4 – Cynllun Rheoli Project*<br>Cynllun rheoli prosiectau amlinellol yn amlygu'r gweithredu sydd i'w wneud, yr amserlen gysylltiedig, ardaloedd gorgyffwrdd posibl ac unigolion allweddol gyda chyfrifoldeb |

DRAFT

cyffredinol am arwain ar bob un [tudalen 47].

Cyfeiria'r cynllun at aelodau allweddol o staff a fydd â chyfrifoldeb dros arwain agweddau penodol:

| | | |
|---|---|---|
| BJ | Bethan Jones | Dirprwy Brif Weithredwr |
| WGJ | Gwynne Jones | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| GP | Gwyn Parry | Pennaeth Gwasanaeth [Addysg] |
| MR | Mair Read | Swyddog â chyfrifoldeb am Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |
| DGJ | Gareth Jones | Swyddog â chyfrifoldeb am y sector cynradd |
| JM | Jane Marr | Swyddog â chyfrifoldeb am Gynhwysiad |
| GTR | Trebor Roberts | Prif Weithredwr Cynnal |
| EVJ | Elfyn Jones | Uwch Ymgynghorydd Uwchradd Cynnal |
| LlJ | Llio Johnson | Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc |
| EW | Enid Williams | Prif Swyddog Ieuenctid |
| MWO | Margaret Williams Owen | Prif Swyddog Gweinyddol |
| EB | Emrys Bebb | Swyddog Cefnogi – Ad-drefnu Ysgolion |

Mae'r GCOA hefyd yn nodi'r gefnogaeth a roddir gan yr UDA [Cefnogaeth Gorfforaethol] a Chefnogaeth Consortiwm. Yn y tymor byr, [hyd at Ebrill 2013], bydd y gefnogaeth Consortiwm ar ffurf cefnogaeth ac arweiniad broffesiynol i sefydlu cysondeb ymarfer. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddir cefnogaeth ymarferol gan Cynnal drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth [CLG] diwygiedig sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y CGOA. O Ebrill 2013, caiff y gefnogaeth ymarferol i'r Awdurdod a'i ysgolion ei darparu gan Wasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru a bydd angen i'r CLG diwygiedig gyda Cynnal hysbysu'r math a natur y gefnogaeth a ddarperir gan GEGYR.

DRAFT

*Adran1 – Argymhellion a materion sydd angen sylw*

| A1. Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr a all wneud hynny gyflawni llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. |
|---|
| 1. Ym mhob cyfnod allweddol mae gormod o ysgolion yn y 25% isaf o ysgolion cyffelyb a rhy ychydig yn y 25% uchaf. |
| 2. Mae gan yr awdurdod ddata o ansawdd da ar ysgolion, ond nid yw'n ei ddefnyddio'n effeithlon i ddod â gwelliant. |
| 3. Mae % y disgyblion sy'n ennill y lefelau uwch o dan y cyfartaledd. Nid yw'r broses o herio ysgolion, yn benodol gyda golwg ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch ar ddiwedd cyfnodau allweddol, yn ddigon miniog. |
| 4. Canolig yw'r cynnydd rhwng cynradd ac uwchradd. |
| 5. Roedd gan 25% o ddisgyblion B7 oed darllen o dan lefel llythrennedd gweithredol yn y Gymraeg neu Saesneg. |
| 6. Nid yw prosesau cymedroli yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn gadarn. Mae hynny wedi arwain at anghysonderau, ac ansicrwydd ymhlith athrawon. |
| 7. Gwella dealltwriaeth Penaethiaid o'r cytundeb partneriaeth. Sicrhau bod y cytundeb yn<br>• egluro'r disgwyliad bod ysgolion yn gyfrifol am eu perfformiad eu hunain;<br>• targedu adnoddau'r awdurdod ar yr ysgolion sydd angen y mwyaf o gefnogaeth;<br>• manylu sut y bydd arweinyddion mewn ysgolion sy'n tanberfformio yn cael eu dwyn i gyfrif pan nad yw perfformiad yn gwella;<br>• egluro'r gweithredu i'w ddilyn pan na sylweddolir gwelliannau o fewn graddfeydd amser cytunedig;<br>• manylu pryd y defnyddir galluoedd ymyrryd ffurfiol.<br>• egluro'r disgwyliad y rhennir barn yr awdurdod o berfformiad ac arweinyddiaeth ysgol gyda'r llywodraethwyr. |
| 8. Darperir cefnogaeth ar gyfer rheolwyr canol, dirprwyon a phenaethiaid a sicrhau ei fod yn effeithio ar ansawdd yr arweinyddiaeth mewn ysgolion. |
| 9. Datblygu swyddogaeth y cyrff llywodraethu mewn perthynas â gweithredu fel cyfaill beirniadol i herio penaethiaid a sicrhau atebolrwydd ar gyfer y safonau a gyflawnwyd. |
| 10. Mae % y bobl ifanc sydd wedi cyflawni credydau neu gymwysterau yn 2011 drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynyddu o 14% i 17% ers y flwyddyn flaenorol. Mae hon yn duedd sy'n gwella ac mae'n ddigonol |

| A2. Cynllunio'n fwy effeithiol gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion. |
|---|
| 1. Mae lefelau presenoldeb yn yr uwchradd yn anfoddhaol, yn arbennig mewn cymhariaeth â PYD . Mae presenoldeb yn y sector cynradd yn dangos tuedd at i lawr. |
| 2. Data presenoldeb heb ei ddadansoddi i adnabod a chynllunio ar gyfer ymyrryd |
| 3. Data presenoldeb ar gyfer dysgwyr ADY wedi ei gasglu ond heb ei ddefnyddio'n ddigon effeithlon i sicrhau lefelau uwch o bresenoldeb gan ddisgyblion. |
| 4. Mae gwaharddiadau tymor penodol o bum niwrnod neu lai yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ond mae gwaharddiadau o chwe diwrnod neu fwy yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac maent yn ail waethaf yng Nghymru. O ganlyniad, collir gormod o ddyddiau o'r ysgol. |

DRAFT

| A4. Cynllunio effeithlonrwydd gwell wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. |
|---|
| 1. Mae gwariant Ynys Môn y disgybl gydag ADY yr uchaf yng Nghymru. Ceir hanes o orwariant sylweddol ar ADY, yn bennaf oherwydd cyllideb integreiddio'r ysgolion. |
| 2. Ni fu ymyriad digonol gan yr awdurdod i sicrhau bod ysgolion yn rheoli diffygion cyllidebol. |
| 3. Mewn ymateb i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae'r awdurdod wedi cynyddu'n sylweddol y ganran o'r gyllideb addysg a ddatganolir i ysgolion ar gyfer 2012-2013. Yn fwy cyffredinol, mae ysgolion yn rhy barod i drosglwyddo arian yn ôl i reolaeth yr awdurdod heb ystyried mewn gwirionedd gwerth am arian eu buddsoddiad. |
| 4. Nid yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ansawdd y ddarpariaeth mewn lleoliadau nas cynhelir wrth benderfynu ar ddigonolrwydd addysg y blynyddoedd cynnar yn yr ardal. |
| 5. Mae'r awdurdod mewn trafodaeth gydag awdurdod cyfagos er mwyn datblygu cynlluniau hirdymor ar gyfer darpariaeth ôl-16. Fodd bynnag, mae cynnydd yn araf iawn ac nid oes unrhyw gynlluniau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd aer gyfer ad-drefnu darpariaeth ysgol yn y sector uwchradd. |

| A6. Cymryd camau i leihau nifer y lleoedd dros ben. |
|---|
| 1. Mae canran y lleoedd gwag yn ysgolion cynradd y sir yr ail uchaf yng Nghymru . Mae'r awdurdod wedi bod yn araf i ymateb i'w ragolygon ei hun. O ystyried y duedd sy'n gwaethygu nid yw arweinyddiaeth gorfforaethol yr awdurdod wedi gweithredu'n amserol nac yn ddigonol i leihau lleoedd dros ben. |

| A3. Sefydlu prosesau cadarn ar gyfer cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risg i broffesiynoli cyflwyno gwasanaethau addysg yn weithredol |
|---|
| 1. Nid yw prosesau cynllunio busnes corfforaethol wedi dylanwadu ar effeithlonrwydd ac effaith y gwasanaeth i sicrhau atebolrwydd swyddogion nac ysgolion<br>o Nid yw cynllun busnes y gwasanaethau yn adnabod cerrig milltir defnyddiol i alluogi i swyddogion olrhain cynnydd a pherfformiad yn effeithiol.<br>o Nid yw trefniadau i reolwyr sicrhau atebolrwydd swyddogion mewn unedau gweithredu yn ddigon trwyadl.<br>o Nid yw cynlluniau busnes lefel weithredol bob amser yn eu lle.<br>o Nid yw asesiad risg yn ddigon cadarn mewn mannau gwasanaeth.<br>o Nid yw'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn defnyddio prosesau busnes i fonitro effaith ei waith na chynllunio ar gyfer gwelliant yn gyson. Nid oes gan yr unedau gynlluniau busnes gweithredol i lywio'u gwaith. Mae hyn yn golygu na all rheolwyr fonitro eu cynnydd yn erbyn targedau meintiol ac ansoddol. |
| 2. Mae gan yr awdurdod gynlluniau i roi cyfundrefn newydd yn ei lle i gasglu a dadansoddi gwybodaeth o ysgolion. |

| A5. Sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb yn y gofynion ar gyfer hunan arfarnu yn weithredol ac yn strategol. |
|---|
| 1. Nid yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn gwneud digon i ddal partneriaid i gyfrif yn erbyn y deilliannau a gyflawnir gan ddysgwyr. Yn ychwanegol, nid oes gan y bartneriaeth drosolwg o ddeilliannau plant a phobl ifanc. Ar y cyfan, ni cheir digon o gysondeb yn y ffordd y mae partneriaid yn arfarnu effaith eu gwaith ar ddysgwyr. Mae'r awdurdod yn gwella prosesau casglu data ac mae'n gwella ansawdd y data sydd ar gael ar draws y gwasanaethau cefnogi ieuenctid a gwasanaethau ehangach y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 2. | Mae'r awdurdod yn gweithio o fewn y Rhwydwaith dysgu 14-19 i ddarparu profiadau addysgol cost-effeithiol. Mae ansawdd y wybodaeth ar ddeilliannau ac effaith ar safonau ar gyfer dysgwyr yn amrywiol. |
| 3. | Bu cynnydd mewn cyflawni argymhellion o arolygiadau blaenorol y gwasanaethau addysg yn rhy araf. Er bod rhai gwelliannau wedi bod o arolygiadau blaenorol, ni chyfarfuwyd yn llawn â'r argymhellion pwysicaf. |
| 4. | Nid yw'r awdurdod yn defnyddio hunan-arfarnu yn gyson i gynllunio, arfarnu deilliannau na chymryd camau penodol i wella tangyflawniad. Nid yw hunan-arfarniad yn gyson nac yn heriol ar draws yr unedau. Nid yw'r gwasanaeth yn adnabod effaith lawn meysydd allweddol ar gyfer gwelliant ac nid yw'n dal staff i gyfrif yn erbyn y blaenoriaethau hyn. |
| 5. | Mae gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid Ynys Môn yn ddigonol ac yn gwella argaeledd cyfleoedd. Fodd bynnag, dim ond ychydig o bobl ifanc sy'n cymryd mantais o'r cyfleoedd hyn. Ceir ystod briodol o wasanaethau cefnogi ieuenctid sy'n cyflenwi anghenion llawer o bobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oes gan yr awdurdod drosolwg strategol o ddarpariaeth er mwyn cydlynu gwasanaethau'n effeithiol |
| 6. | Mae monitro cynnydd disgyblion unigol gydag ADY ar lefel ysgol wedi gwella, ond nid yw'r awdurdod bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth hon i arfarnu anghenion grwpiau o ddisgyblion a chynllunio'n strategol. Nid oes ganddo arfarniad cywir o effaith gwasanaethau ADY er mwyn sicrhau'r ffordd orau i ganolbwyntio cefnogaeth ychwanegol, blaenoriaethu a datblygu gwaith ei dimau gweithredu. |

| A7. Ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion | |
|---|---|
| 1. | Mae prosesau'r awdurdod ar gyfer dal arweinyddion ysgol i gyfrif yn wan ac nid ydynt yn sicrhau her ddigonol yn y broses o wella safonau. Nid yw gwybodaeth ar ysgolion sy'n tanberfformio wedi ei hamlygu i arweinyddiaeth gorfforaethol yn gyson. Cyflwynir data perfformiad Sir-gyfan heb adnabod lle mae pryderon penodol yn gorwedd. |
| 2. | Nid yw aelodau'n derbyn gwybodaeth ddigonol ar yr ystod o waith yr adran na'i pherfformiad er mwyn ei galluogi i arwain, herio a sicrhau atebolrwydd. |
| 3. | Mae'r broses o ddod ag eitemau o flaen y pwyllgor craffu yn dal yn annelwig i rai aelodau ac mae'n tanseilio'r broses craffu. |
| 4. | Bu'r awdurdod yn araf i weithredu ar risgiau o fewn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes ac maent wedi eu codi i lefel gorfforaethol. |

DRAFT

*Adran 2 - Amlinelliad o'r gweithredu sydd i ddigwydd*

*A1. Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr a all wneud hynny gyflawni llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.*

- Diwygio'r Cytundeb Partneriaeth i egluro'r disgwyliadau ar ysgolion mewn perthynas â gwella ysgolion; meini prawf eglur ar gyfer targedu cefnogaeth ychwanegol a herio ysgolion a adnabuwyd fel rhai sy'n tangyflawni; disgwyliadau clir ar Lywodraethwyr mewn ysgolion lle mae arwyddion o danberfformio.
- Targedu cefnogaeth a her i ysgolion sydd angen cefnogaeth a monitro ffocysedig ac ysgolion sydd angen cefnogaeth sylweddol. Sicrhau fod ysgolion yn atebol am welliannau.
- Gwneud defnydd addas o bob data sydd ar gael i gytuno ar dargedau heriol ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd mewn perthynas â chyflawniad ar lefel ddisgwyliedig a lefel ddisgwyliedig +1 yn CA1, 2 a 3. Yn CA4, targedau i'w cyfunioni â dangosyddion cenedlaethol a disgwyliadau llinell atchwel LlC
- Targedu ysgolion sydd wedi bod yn y chwarter isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf a sicrhau bod cynllun gweithredu clir ar gyfer gwella. Sicrhau bod Corff Llywodraethu'r ysgolion hyn yn ymwybodol o'r angen am welliant. [Gweler yr adran ar y Cytundeb Partneriaeth]
- Sicrhau bod pob ysgol yn glir ynghylch y camau i'w cymryd i herio dysgwyr mwy galluog a thalentog. Datblygu deunyddiau cwricwlwm enghreifftiol i'w defnyddio gan ysgolion cynradd gyda dysgwyr mwy galluog a thalentog.
- Adolygu prosesau i safoni asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen a CA2 mewn ysgolion cynradd i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r disgwyliadau a gwell cysondeb wrth asesu
- Adolygu strategaeth Llythrennedd yr Awdurdod a sicrhau fod gan bob ysgol:
  - gynlluniau priodol yn eu lle i wneud defnydd effeithiol o ddata oedran darllen a gwybodaeth am arferion effeithiol i wella safonau darllen;
  - cynllun gweithredu manwl i wella safonau ysgrifennu yn CA2 a CA3.
- Sicrhau fod yr Awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o ddata oedran darllen i herio ysgolion unigol.
- Sicrhau fod Penaethiaid yn cynllunio ar gyfer gwella safonau rhifedd.
- Datblygu rhan Craffu Addysg mewn perthynas ag 'ysgolion sy'n peri pryder'. Sefydlu trefniadau priodol i gynnwys aelodau etholedig allweddol a'r Comisiynydd Addysg i adolygu cynnydd a chynyddu atebolrwydd ysgolion sydd angen cefnogaeth a monitro ffocysedig ac ysgolion sydd angen cefnogaeth sylweddol gyda golwg ar benderfynu ar ddilyniant i gynnwys y defnydd o weithdrefnau ymyrryd ffurfiol. Bydd hyn yn cynyddu lefel yr her i ysgolion unigol a sicrhau fod aelodau etholedig allweddol yn llwyr ymwybodol o'r materion o amgylch arweiniad a safonau sydd angen sylw.
- Sicrhau fod Penaethiaid a swyddogion gwella ysgolion yn gwneud defnydd o arweiniad y Consortiwm ar gyfer arfarnu ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth [gan ddefnyddio arbenigedd gan Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru] a chysylltu'r deilliannau â'r Proffil Ysgol electronig.
- Sicrhau fod Cyrff Llywodraethu yn cyflawni eu dyletswydd statudol mewn perthynas â gweithredu fel cyfaill beirniadol i herio Penaethiaid a sicrhau atebolrwydd ar gyfer y safonau a gyflawnir.

DRAFT